

Diogelu addysg Gofalwyr Ifanc

Rhaid cefnogi pob gofalwr ifanc drwy gydol eu haddysg fel nad oes neb yn cael ei amddifadu rhag cael dyfodol teg.

Yr hyn a ofynnwn amdano gan Lywodraeth y DU

- Dylid darparu cyllid penodol i ddarparwyr addysg i gefnogi canlyniadau addysgol gofalwyr ifanc.
- Rhaid i bob ysgol, coleg a phrifysgol gael arweinydd a pholisi gofalwyr ifanc/myfyrwyr sy'n ofalwyr fel nad oes rhaid i unrhyw ofalwr ifanc gadw'r ddysgl yn wastad rhwng gofalu a dysgu ar eu pen eu hunain.
- Dylai Llywodraeth y DU gefnogi Cyfamod Gofalwyr Ifanc yn ffurfiol, gan ei roi wrth galon unrhyw Strategaeth Gofalwyr sydd gan Lywodraeth y DU yn y dyfodol.
- Dylai Llywodraeth y DU ymrwmo i ehangu cynlluniau i wella'r broses o ganfod gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc mewn addysg.

Ystadegau allweddol

- Mae 1 o bob 3 gofalwr ifanc a gofalwr sy'n oedolyn ifanc yn ei chael yn anodd cadw'r ddysgl yn wastad rhwng gofalu â dysgu (adroddiad Gofalwyr Ifanc/Gofalwr sy'n Oedolion Ifanc Ymddiriedolaeth Gofalwyr y DU, 2023).
- Mae bron i 40% o ofalwyr ifanc yn Lloegr yn absennol yn gyson – bron i ddwywaith yn uwch nag ar gyfer disgyblion heb gyfrifoldebau gofalu.
- Nid yw 40% o ofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt mewn addysg i allu cadw'r ddysgl yn wastad rhwng gofalu a dysgu (adroddiad Gofalwyr Ifanc/Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc Ymddiriedolaeth Gofalwyr y DU, Mawrth 2023).
- Mae gofalwyr ifanc 38% yn llai tebygol o ennill cymhwyster lefel gradd; mae'r rhai sy'n gofalu am 35 awr a mwy yr wythnos 86% yn llai tebygol (Astudiaeth Hydredol Aelwydydd y DU).

Un o'r prif faterion y mae gwasanaethau gofalwyr lleol yn dweud wrthym ni amdano yw bod y gefnogaeth i ofalwyr ifanc mewn addysg yn anghyson neu'n brin o adnoddau, gyda rhai ysgolion yn dal i fethu â chanfod unrhyw ofalwr ifanc o gwbl. Mae angen i'r loteri cod post hon o ran cymorth ddod i ben, ac mae angen i bob ysgol, coleg a phrifysgol ddarparu cymorth i ofalwyr ifanc.

Beth mae gofalwyr ifanc yn ei ddweud

"Does dim empathi na dealltwriaeth tuag at ofalwyr ifanc. Rydw i'n dal i gael fy nghadw ar ôl ysgol os nad ydw i'n gallu gorffen fy ngwaith cartref ar amser oherwydd bod fy mrawd wedi cael ffit. Os ydw i'n hwyr oherwydd fy mod i'n ei helpu, eto, rydw i'n colli marciau am fod yn hwyr, hyd yn oed pan fydd mam yn ffonio ac yn esbonio. Mae'n nhw'n galed iawn arnom ni pan aiff pethau o chwith."

"Mae angen i leoliadau addysg fod yn fwy ymwybodol o'r hyn y mae gofalwyr ifanc yn mynd drwyddo. Gall fod yn anodd ac yn flinedig. Dydyn ni ddim yn ddiog; rydyn ni wedi blino ac yn gweithio'n rhy galed."

"Roedd yn anhygoel o anodd i gwblhau fy arholiadau Safon Uwch ... mae gen i gywilydd o'm graddau, ac mae'n siomedig cyn lleied o gefnogaeth roddodd fy ysgol i mi o ran fy rôl gofalu."

Naratif

Bob tro y byddwn yn siarad â gofalwyr ifanc, byddant yn dweud wrthym am yr angen brys i wella ymwybyddiaeth, cydnabyddiaeth a chefnogaeth i ofalwyr ifanc mewn addysg. Mae gofalwyr ifanc am i staff a disgyblion eraill ddeall sut beth yw bod yn ofalwr ifanc. Mae angen cefnogaeth arnyn nhw i lwyddo'n addysgol a pheidio â cholli'r cyfle i fanteisio ar gyfleoedd.

Eto i gyd, mae llawer gormod o ofalwyr ifanc yn cael eu hamddifadu o ddyfodol teg. Mae tystiolaeth gref o'r gosb addysgol y mae gofalwyr ifanc yn gorfod ei thalu. Yn rhy aml o lawer, mae dyletswyddau gofalu'n effeithio ar bresenoldeb yn yr ysgol, ar gyrhaeddiad addysgol ac ar eu gallu i symud ymlaen i addysg uwch. A chyda thystiolaeth bod gofalwyr ifanc yn gofalu am fwy o oriau ac am bobl â chyflyrau mwy cymhleth, ni allai'r angen am gymorth a chyllid ychwanegol fod yn gliriach ac ni allai fod mwy o frys am hynny.

Mae cannoedd o ysgolion, colegau a phrifysgolion ledled y DU sy'n cynnig cefnogaeth wych i'w gofalwyr ifanc ac i ofalwyr sy'n oedolion ifanc, ond nid yw hynny'n wir am nifer fawr ohonynt. Mae Ymddiriedolaeth y Gofalwyr yn credu ei bod yn bryd mynd ymhellach ac i gefnogaeth fod ar gael ym mhob lleoliad addysg fel bod pob gofalwr ifanc yn cael yr un cyfle i ffynnu mewn addysg a symud ymlaen i gyflogaeth yn y pen draw.

Astudiaeth Achos – Stori Maxx

Mae Maxx yn 14 oed ac yn gofalu am ei mam sydd ag amrywiaeth o gyflyrau iechyd corfforol sy'n aml yn golygu ei bod yn dioddef poen gwael iawn neu flinder eithafol. Mae Maxx yn gwneud llawer o dasgau ymarferol o amgylch y tŷ fel coginio, glanhau, helpu mam i fynd o gwmpas y tŷ a nôl pethau i'w mam, fel meddyginiaeth.

Pan fydd ei mam yn sâl, mae presenoldeb Maxx yn gostwng oherwydd bod Maxx yn poeni am ei gadael ac yn teimlo bod angen iddi fod yno i helpu oherwydd nad oes neb arall.

Pan mae Maxx wedi colli'r ysgol oherwydd y sefyllfa gartref, mae'r absenoldebau wedi cael ei nodi fel rhai heb eu hawdurdodi. Mae Maxx hefyd wedi gorfod aros ar ôl ysgol fwy nag unwaith am beidio â chyflwyno gwaith cartref pan nad oedd ganddi amser i'w wneud oherwydd ei bod yn helpu ei mam.

Mae gan ysgol Maxx waharddiad llwyr ar ffonau symudol ac nid yw Maxx wedi gallu defnyddio ei ffôn i wneud yn siŵr bod ei mam yn iawn. Mae hyn yn golygu y bydd Maxx yn aml yn mynd i'r toiledau i ddefnyddio ei ffôn i weld sut mae pethau gyda'i mam.

“Os nad yw mam yn cael diwrnod da, fydda i'n canolbwyntio fy sylw ar mam, ac nid ar waith ysgol. Mae'r ysgol wedi clustnodi un person ar gyfer iechyd meddwl, ond does neb wedi'i glustnodi ar gyfer gofalwyr ifanc, a does dim grŵp gofalwyr ifanc, ac rwy'n gwybod bod rhai'n bodoli mewn ysgolion eraill. Byddai cael rhywun i siarad â nhw am fy rôl gofalu yn ddefnyddiol iawn. Gyda gwaith cartref – os nad ydw i wedi'i wneud – doedd hynny ddim am fy mod wedi anghofio neu nad oeddwn i'n malio amdano – doedd gen i ddim amser.”